

CHWEDLAU AESOP

RYDYM i gyd yn gyfarwydd â chwedlau Aesop — ers canrifoedd maent wedi bod yn fwyd llwy i blant — yn gyfrwng ceisio dysgu gwersi moesol a defnyddiol ar gyfer y bywyd o'u blaen. Prin fod angen diffiniad o'r math hwn o lenyddiaeth. Straeon sy'n cynghori a rhybuddio ydynt, gan ddisgrifio ymddygiad ffôl neu ddrwg, weithiau'n ei gyferbynnu â gweithredoedd doeth a phwylllog; maent yn ceisio dysgu synnwyr ac egwyddorion mewn ffordd ddifyr a chofiadwy sy'n apelio at blant (neu at y plentyn mewn oedolion). Dylid cofio mai ar gyfer oedolion y'u bwriedid yn wreiddiol, mewn oes symlach, ac mewn llawer chwedl, mae angen tipyn o ddealltwriaeth o fywyd er mwyn gwerthfawrogi'r foeswers yn iawn. Gall moeswers y chwedl gael ei mynegi ar wahân, fel arfer ar y diwedd, er weithiau mae'n ddealladwy yn y naratif, fel sy'n boblogaidd mewn ysgrifennu moesol heddiw.

Anifeiliaid yw'r cymeriadau yn y mwyafrif o'r chwedlau hyn, a dyma un o'r gwahaniaethau rhyngddynt a damhegion. Mae dameg fel arfer yn ymwneud â phobl mewn sefyllfaedd posibl — wrth eu natur, gydag anifeiliaid yn siarad ac ati, ffantastig yw sefyllfaedd chwedlau Aesop. Ac mae'r wers yn y chwedlau yn aml yn ddoethineb mwy hydol nag a geir mewn dameg.

Mae tebygrwydd hefyd rhwng chwedl Aesop a dihareb. Pwy ddisgrifiodd ddihareb fel 'chwedl wedi ei gwasgu'? Yn sicr dim ond crynodeb o chwedl yw llawer o ddiarhebion — a daeth dywediadau megis 'ci yn y preseb' a'r 'grawnwin surion' yn rhan o'n sgwrs bob dydd.

Onid pwy oedd y gŵr a roddodd ei enw i'r math hwn o lenyddiaeth — pwy oedd Aesop? Cymeriad hanner-chwedlonol ydyw mewn gwirionedd a phrin yw'r wybodaeth sydd ar gael amdano. Yn ôl Herodotus, yr 'hanesydd cyntaf', roedd y Groegwr Aesop yn byw chwe chanrif cyn Crist ar Ynys Samos yn agos i arfordir Twrci ar lan Môr Aegea, yn gaethwas i ŵr o'r enw Iadmon. Mae awgrym hefyd y'i lladdwyd gan bobl Delphi — dywed awduron diweddarach y'i tafliwyd dros glogwyn fel cosb am ryw drosedd honedig. Ond rhaid bod yn ofalus wrth ddarlennu y llun straeon mae awduron diweddarach yn eu hysgrifennu am ei fywyd, er enghraifft, dywed rhai ei fod yn ddyn arbennig o hyll o ran corff, ac a ddefnyddiodd ei ddawn i ddweud ei stori er mwyn ennill poblogrwydd. Mae angen gofal

felly wrth hel manylion amdano, oherwydd ni chofnodwyd ei hanes gan ei gyfoedion ac, wrth gwrs, ni ysgrifennwyd ei chwedlau ar y pryd chwaith. Traddodiad llafar oedd i straeon o'r fath — traddodiad a fu mewn bodolaeth ymhell cyn amser Aesop ac a barhaodd am ganrifoedd wedi ei farwolaeth. Efallai mai dim ond ychydig o'r storiâu a briodolwyd i'w enw oedd ffrwyth ei ddychymyg ei hun, ac yn hytrach mai ailadrodd a phoblogeiddio'r straeon a wnaeth — beth bynnag am hynny — rywsut enw Aesop a gysylltwyd â'r traddodiad.

Yn sicr o'r bumed ganrif ymlaen daeth chwedlau yn null Aesop yn boblogaidd iawn yn Athen a'r cyntaf i wneud cofnod ysgrifenedig o'r chwedlau, tua diwedd y bedwaredd ganrif cyn Crist, oedd Demetrius o Phalerum. Yna, yn ystod yr ail ganrif o Oed Crist ysgrifennwyd chwedlau Aesop ar ffurf barddoniaeth gan Phaedrus a Babrius, y naill yn ysgrifennu yn Lladin a'r llall yn Groeg. Ychwanegodd Phaedrus hefyd ei gyfraniadau ei hun. Eu gwaith hwy yw prif ffynhonnell yr holl fersiynau diweddarach mewn llawysgrifau, yn ogystal â'r fersiynau printiedig a ymddangosodd yn nes ymlaen. Wrth gwrs, bu llenorion eraill ar hyd y blynyddoedd yn ychwanegu straeon gwreiddiol yn eu tro i'r stôr. Wedi i dechneg argraffu ddatblygu, chwedlau Aesop oedd un o'r gweithiau cyntaf i ymddangos yn yr Eidal, yr Almaen a Ffrainc; ers hynny llifodd argraffiadau di-rif o weisg y byd.

Onid beth am fersiynau Cymraeg? Mae nifer o argraffiadau ar gael, megis:

ALL gyfres o chwedlau neu ddammegion Aesop, gyda phigion o ddammegion diweddarach Kriolf, La Fontaine, etc.; wedi eu cyfieithu a'u cyfaddasu i'r

Gymraeg. Wrexham: Hughes & Son (1880?).

AWELON y Mynydd: sef rhan o chwedlau Esop ar gân/ gan Ednant (Richard Jones). Bala: H. Evans (1896?).

CHWEDLAU Aesop wedi'u troi i'r Gymraeg a'u haddasu i blant/ gan Ceridwen Gruffydd. (Mewn dwy gyfrol.) Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1936-1949.

CHWEDLAU hanes (o waith Aesop ac eraill). Trosiad newydd i'r Gymraeg/ gan John Edwards. Llanelli: Gwasg Dyfed, 1975.

CHWEDLAU neu ddammegion Aesop, wedi eu cyfieithu o'r argraffiadau goreu yn yr iaith Seisonig a'u cyfaddasu i'r Gymraeg/ gan Glan Alun (Thomas Jones, 1811-66, o'r Wyddgrug). Wrexham: Hughes & Son (1870?).

DAMEGION Aesop, yn nghydag amrywiol ganeuon ar wahanol destynau/ gan J. D. Jones, Rhuthyn. Llanidloes: Argraffwyd dros yr awdur gan J. M. Jones, 1857.

Byddwch sylweddus beth yw ystyr. Er mwyn deall mwydych chi eiddoedd hysgrifedig. Mae Cadbury's Cocoa yn hysgrifedig yn ddwy gyfrol, mewn Kala, Mala, Hysgrifedig, a'u hysgrifedig i'r hysgrifedig a'u hysgrifedig.

CADBURY'S COCOA
HOLLOL BUR, FELLY Y GOREU.

DAMHEGION ESOP.
GYDA 200 O DDARLUNIAU

GOLYGYD GAN
W. T. STEAD.

CYMRWYD GAN
H. Brython Hughes.

PRIS, TAIR CRINOG.

CAERNARFON: "GENEDL GYMREIG," SWYDDFA'R GENEGL GYMREIG.

DAMHEGION Esop ar gân/ gan y Parch. Morris Williams (Nicander). Bangor: Jarvis & Foster, 1901.

DAMHEGION Esop gyda 200 o ddarluniau/ golygyd gan W. T. Stead; Cymreigiwyd gan H. Brython Hughes. Caernarfon: Swyddfa'r Genedl Gymreig (1900?).

NICANDER: chwedlau Esop ar gân. Llandybie: Llyfrau'r Dryw, 1959.


RHAI o ddammegion Aesop: wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg; ynghyd â gystyr athrawiaethol pob un o'r damhegion, wedi ei osod mewn trefn ar eu hol. Dolgellau: T. Williams (c.1805).

248 o ddammegion Esop: yr addysgiadau ar gan; cyfieithiedig/ gan yr Hen Ddymwr (E. Foulkes). Caernarfon: H. Humphreys (1873). (Cyhoeddwyd hefyd mewn rhannau.)

Wrth gwrs, ceir y chwedlau yn ogystal mewn cylchgronau ac almanaciau Cymraeg.

Mae'n amlwg o'r rhestr uchod

Clasuron Y Plant



NICANDER
CHWEDLAU ESOP AR GÂN

LLYFRAU R DRYW

fod Aesop yn arbennig o boblogaidd yn ystod ail hanner y ganrif ddiwethaf gyda sawl argraffiad yn gweld golau dydd yn ystod 'oes aur' cyhoeddi yng Nghymru. Roedd y cyfnod hwnnw hefyd yn gyfnod o frwdrydedd crefyddol mawr ac awydd i sicrhau safonau uchel o foesoledb mewn cymdeithas. Efallai nad yw'n annisgwyl felly gweld chwedlau Aesop ymysg y toreth llyfrau Cymraeg a ymddangosodd yn ystod ail hanner teyrnasiad Victoria.


Efallai fod gan rai o ddarlennwyr *Y Casglwr* ambell un o'r uchod yn eu meddiant a diddorol fyddai clywed sut y daethant ar eu traws, neu unrhyw hanesyn diddorol arall amdanynt. Nid ydynt yn debyg o fod o werth ariannol mawr ond, serch hynny, gallwn ymfalchio fel Cymry yn ein cysylltiad ag argraffiad Saesneg o'r chwedlau, sef argraffiad cain Gwasg Gregynog, sydd â gwerth sylweddol iddo:

The FABLES of Esop: translated out of Frensch in to Englysshe/ by William Caxton. (Gregynog): The Gregynog Press, 1931.

Dim ond 250 o gopiau o'r gyfrol hon a argraffwyd. Fe'i haddurnwyd â thoriadau pren, ac ansawdd lluniau Agnes Miller Parker yw rhan o arbenigrwydd y llyfr.

Gan mai cyfrwng dysgu moeswers i blant fu'r chwedlau'n bennaf yn y canrifoedd diwethaf ledled y byd, cynnwys llawer o'r argraffiadau ddarluniau pwrpasol. Ymhob cyfnod addaswyd y chwedlau i ddiwylliant y cyfnod, ac mae hyn hefyd yn amlwg yn y lluniau. Yn yr argraffiadau cynharaf cynhyrchid y lluniau trwy doriadau pren. Yn y ddeunawfed ganrif ac wedi hynny cynhyrwyd amrywiaeth o engraffiadau i ddenu sylw plant. Rhoddodd technegau diweddar o atgynhyrchu lluniau lliw

chwedlau hanes (o waith Aesop ac eraill)



Trosiad newydd i'r Gymraeg gan
John Edwards Gwasg Dyfed